

Derbyn i Ysgol Uwchradd Medi 2024

Pan fo ysgol wedi'i henwi ar ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig /Cynllun Datblygu Unigol, mae gan y Cyngor ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r lleoliad hwnnw cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr eraill. Os yw cyfanswm y ceisiadau am dderbyn i ysgol uwchradd yn fwy na nifer y lleoedd, defnyddir y drefn ganlynol o flaenoriaeth i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (plant sydd mewn gofal cyhoeddus) a phlant oedd yn arfer derbyn gofal
2. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n cyflwyno cais ar sail feddygol
3. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch gyda brodyr/chwiorydd perthnasol
4. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n gwneud cais ar sail feddygol
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch gyda brodyr/chwiorydd perthnasol
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch

Ar ôl ystyried y categorïau uchod, neu os yw nifer y ceisiadau yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn a gyhoeddwyd, roedd blaenoriaeth yn seiliedig ar y plant oedd yn byw'n agosach i'r ysgol ddewisol.

Ysgol	Nifer y blaenoriaethau a fynegwyd	Llefydd ar gael (nifer derbyn a gyhoeddwyd)	Nifer y lleoedd mewn Dalgylch a Mannau â Blaenoriaeth Uchel a ddyrennir	Nifer y lleoedd heb ddalgylch a ddyrennir	Nifer y rhai a wrthodwyd	Nifer y llefydd sy'n weddill
Ysgol Bassaleg	484	330	278	52	24	0
Ysgol Gyfun Caerllion	383	248	133	115	0	0
Ysgol Uwchradd Llanwern	263	260	158	44	0	58
Ysgol Uwchradd Llysweri	273	240	159	44	0	37
Ysgol Uwchradd Casnewydd	250	203	187	16	0	0
Ysgol Sant Julian	397	242	154	89	51	0
Ysgol John Frost	414	248	240	8	40	0
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	101	150	88	6	0	56